# FFURFLEN GAIS SAFONOL AR FWYNAU

## Cais i Wneud Gwaith Mwynau a'r Datblygu Cysylltiedig

### DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

**Cyngor Gwynedd, 2011**

**NODIADAU CYFARWYDDO I LENWI FFURFLEN GAIS SAFONOL AR FWYNAU AR GYFER GWAITH MWYNAU A'R DATBLYGU CYSYLLTIEDIG**

Mae'r canllawiau hyn i'ch helpu i lenwi'r ffurflen gais a rhoi i'r awdurdod cynllunio lleol yr holl wybodaeth angenrheidiol i'ch cais gael ei bennu'n effeithiol. Gofynnir am yr wybodaeth yn unol â darpariaethau Rheolau Cynllunio Gwlad a Thref (ceisiadau) 1988.

CRYNODEB CYFFREDINOL YW'R NODIADAU HYN O DREFN CYFLWYNO CAIS, AC NID YDYNT YN DARPARU TREFN FANWL AR GYFER POB AMGYLCHIAD. CYN GWNEUD CAIS, OS NAD YDYCH YN SIWR OS OES RAID I'CH CYNNIG GAEL CANIATÂD CYNLLUNIO AI PEIDIO, FE'CH CYNGHORIR YN GRYF I WNEUD APWYNTIAD I DRAFOD EICH CAIS GYDA'R AWDURDOD CYNLLUNIO LLEOL.

**Sut i lenwi'r ffurflen a'r atodiadau perthnasol.**

**Ffurflen Gais Safonol ar Fwynau.** Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gwblhau cwestiynau 1-9 ar y ffurflen gais safonol ar fwynau, er mwyn i'r cais gael ei ystyried. Mae'n hanfodol felly bod y cwestiynau hyn yn cael eu hateb mor llawn ag sydd modd.

Atodiad 1: **Cloddio am Fwynau a'u Prosesu.** Dylai ymgeiswyr ateb hyn mor llawn ag sydd modd, gan y bydd yr wybodaeth o gymorth i'r awdurdod cynllunio lleol (ACLL) i bennu'r cais. Fodd bynnag, gall ymgeiswyr ddewis rhoi datganiad yn cefnogi yn lle'r adran hon. Os defnyddir datganiad cefnogol, dylai ymgeiswyr groes-gyfeirio rhifau tudalennau neu baragraffau yn y datganiad cefnogol â chwestiynau ar y ffurflen. Gall ymgeiswyr hefyd ddewis cyfuniad o agweddau.

Atodiad 2: **Chwilio am Fwynau.** Dylai ymgeiswyr gyda chynigion yn cynnwys chwilio am fwynau lenwi'r adran hon. Fel gydag Atodiad 1, gellir darparu'r wybodaeth fel datganiad cefnogol os mynnir.

Atodiad 3: **Cloddio Dan Ddaear.** Dylai ymgeiswyr gyda chynigion yn cynnwys cloddio dan ddaear lenwi'r cais hwn. Fel gydag Atodiad 1, gellir darparu'r wybodaeth fel datganiad cefnogol os mynnir.

Atodiad 4: **Gwaith Gwaredu Mawr Gwastraff Mwynau neu Chwareli ar y Wyneb.** Os yw eich cynnig yn golygu gwaith gwaredu mawr o'r math yma, yna dylid llenwi'r cais hwn. Fel gydag Atodiad 1, gellir darparu'r wybodaeth fel datganiad cefnogol os mynnir.

Atodiad 5: **Gwaith Olew a Nwy.** Dylid llenwi hwn os yw eich cynnig yn golygu gwaith olew neu nwy. Fel gydag Atodiad 1, gellir darparu'r wybodaeth fel datganiad cefnogol os mynnir.

**Nifer y Ffurflenni Cais a'r Wybodaeth Gefnogol y Dylid eu Cyflwyno**

Fel arfer, dylid cyflwyno hyd at dri chopi o'r ffurflen gais, ynghyd â thri chopi o bob un o'r cynlluniau ac unrhyw ddefnydd arall (e.e., datganiadau cefnogol, datganiadau amgylcheddol. etc) i'r ACLL. Fodd bynnag, er mwyn cynorthwyo'r broses ymgynghori, gall copïau ychwanegol o'r ffurflen a'r wybodaeth gefnogol fod yn ddefnyddiol. Argymhellir eich bod yn trafod y mater hwn gyda'r awdurdod cynllunio lleol cyn cyflwyno eich cais.

**Gwybodaeth Bellach**

Wrth baratoi eich cais, fe'ch cynghorir hefyd i gadw mewn cof Polisiau a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol a pholisiau a dynodiadau'r cynllun datblygu perthnasol.

**Lle i Gyflwyno'r Cais**

Dylid cyflwyno ceisiadau cynllunio am gloddio a gweithio mwynau ar neu dan dir, datblygiad cysylltiol a pherthynol os ar yr un safle neu safle cyfagos i cynllunio@gwynedd.gov.uk neu:

Gwasanaeth Cynllunio
Swyddfa’r Cyngor
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA

**Atgoffir ymgeiswyr mai cais yw hwn yn unig am ganiatâd dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac nad yw'n rhoi unrhyw ganiatâd y gall bod ei angen dan reoliadau adeiladu neu ddeddfwriaeth yn ymwneud â chyfarpar ymgymerwyr statudol, hawliau tramwy, adeiladau rhestredig, hysbysebion, gwarchod yr amgylchedd, ddeddfwriaeth diogelwch pyllau a chwareli nac unrhyw ddeddfwriaeth arall.**

# FFURFLEN GAIS SAFONOL AR FWYNAU

**Cais i Wneud Gwaith Mwynau a'r Datblygu Cysylltiedig**

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

| AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG | |
|---|---|
| Cais Rhif: | |
| Ffi: | |
| Dyddiad Derbyn: | |
| Dyddiad Dilys | |
| Cyf. Grid | |
| Datganiad Cefnogi | |
| Datganiad Amgylcheddol | |

***DYLAI YMGEISWYR DDARLLEN Y NODIADAU CYFARWYDDYD SYDD GYDA'R FFURFLEN HON CYN LLENWI'R FFURFLEN GAIS AM FWYNAU A'R ATODIADAU.***

***RHAID I BOB YMGEISYDD GWBLHAU CWESTIYNAU 1-9 AR Y FFURFLEN HON MOR LLAWN AG SYDD MODD.***

**1 Ymgeisydd** **Asiant**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Enw | | Enw | |
| Cyfeiriad | | Cyfeiriad | |
| Rhif ffôn | | Rhif ffôn | |
| Rhif ffacs | | Rhif ffacs | |
| Enw person cyswllt | | Enw person cyswllt | |

**2 Safle'r Cais**

(i)

| | |
|---|---|
| Lleoliad a chyfeiriad y safle | Cyf. Grid ar fynedfa'r safle a/neu ganol y safle:<br>(dileer yn ôl y galw) |

(ii)

| |
|---|
| Defnydd presennol y safle |

(iii) Defnydd blaenorol diwethaf y safle cyhyd ag sy'n hysbys (os yn wahanol i [ii] uchod).

(iv) Cyfanswm arwynebedd y cais (fel yr amlinellir yn goch ar eich cynllun safle) ________ ha

(v) Beth yw diddordeb yr ymgeisydd yn y safle?

(vi) Beth yw diddordeb yr ymgeisydd yn y tir cyfagos (a amlinellir yn las ar eich cynlluniau safle)?

**3 NATUR Y CAIS AR FWYNAU**

(Atebwch gynifer ag sy'n angenrheidiol)

(i) A yw'r cais am:

| | | |
|---|---|---|
| (a) | Gloddio o'r newydd am fwynau? | YDYW/NAC YDYW |
| (b) | Estyniad i safle bresennol? | YDYW/NAC YDYW |
| | Os ydyw, rhowch ddyddiad a chyfeirnod y caniatâd presennol | |
| (c) | Waith cysylltiol? | YDYW/NAC YDYW |
| (ch) | Arall (rhowch fanylion)? ......................................................................................................................................................................................................................................................................................................... | YDYW/NAC YDYW |

(ii) Caniatâd blaenorol am waith cloddio ar y safle (os gwyddys).

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyf. ACLL | | Dyddiad(au) Penderfyniad(au) | |

**4 MATH O DDATBLYGIAD**

(i) A yw'r cais hwn yn cynnwys:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cloddio mwynau o'r wyneb? | YDYW/NAC YDYW | Cynigion sy'n golygu | |
| Prosesu mwynau? | YDYW/NAC YDYW | llawer o waith gwaredu | |
| Chwilio am fwynau? | YDYW/NAC YDYW | gwastraff o bwll neu chwarel ar yr wyneb? | YDYW/NAC YDYW |
| Cloddio dan ddaear? | YDYW/NAC YDYW | Gweithgareddau Olew neu Nwy | YDYW/NAC YDYW |
| Adeiladau, offer neu strwythurau eraill cysylltiedig â datblygu mwynau? | YDYW/NAC YDYW | | |

**GWELER Y NODIADAU CYFARWYDDYD AM Y WYBODAETH ATODOL SYDD EI ANGEN.**

| | |
|---|---|
| (ii) | Rhowch ddisgrifiad byr o'r datblygiad |

**5 CYNLLUNIAU A DARLUNIAU**

*Rhestrwch yma y cynlluniau a'r darluniau a gyflwynir gyda'r cais. Cyfeiriwch at y nodiadau cyfarwyddyd am ddarluniau y bydd eu hangen neu y byddai'n ddoeth eu rhoi gyda'ch cais.*

| Cyfeirnod | Teitl |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |

**6 DEFNYDD ATEGOL**

(i) A gyflwynir Datganiad Amgylcheddol gyda'r cais hwn? GWNEIR/NA WNEIR

(ii) A yw'r ymgeisydd yn fodlon i wneud copiau ychwanegol o ddogfennau'r cais, gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol, ar gael i'r cyhoedd eu gweld mewn mannau ac eithrio swyddfeydd y ACLL? YDYW/NAC YDYW

Os ydyw, nodwch y cyfeiriad lle gellir archwilio'r wybodaeth.

| |
|---|
| Cyfeiriad |

Nodwch bris y Datganiad Amgylcheddol a'r cyfeiriad lle gellir ei brynu.

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad | |
| Teitl y Ddogfen | |
| £ | |

(iii) A gyflwynir Datganiad Ategol gyda'r cais hwn? GWNEIR/NA WNEIR

## 7. ARDYSTIAD

GORCHYMYN TREFNIADAETH DATBLYGU CYFFREDINOL CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1995. TYSTYSGRIFAU DAN ERTHYGL 7.

(i) Perchen(ogion) y tir wyneb

Enw

Cyfeiriad

(ii) Perchenog(ion) y mwynau os yn wahanol i (i)

Enw

Cyfeiriad

(iii) Ardystiad dan Erthygl 7 y Gorchymyn Trefniadaeth Datblygu Cyffredinol 1995. Nodwch fanylion y tystysgrifau a gwblhawyd.

| | Ticiwch |
|---|---|
| Tystysgrif A | |
| Tystysgrif B | |
| Tystysgrif C | |
| Tystysgrif D | |
| Tystysgrif Daliad Amaethyddol | |

**Dylai ymgeiswyr nodi na all yr Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried cais oni fydd y tystysgrifau priodol yn dod gydag ef.**

## 8 FFIOEDD

Pa ffi sy'n dod gyda'r cais hwn? £

**Dylai ymgeiswyr nodi na all yr Awdurdod Cynllunio Lleol ystyried cais oni fydd y ffi briodol yn dod gydag ef.**

## 9 Datganiad

(Dileer yn ôl y galw)

Yr wyf i/ydym ni trwy hyn yn gofyn am ganiatâd i weithredu'r datblygiad a ddisgrifir yn y cais hwn, ac yn datgan, hyd y gwn/gwyddom, bod y wybodaeth yn gywir; neu

Yn achos asiantwyr, fy mod/ein bod ag awdurdod llawn i gyflwyno'r cais hwn ar ran yr ymgeisydd/wyr.

Arwyddwyd ______________________

Dyddiad ______________________

**Ar ran (rhowch enw'r ymgeisydd os arwyddwyd gan asiant).**

Enw'r Ymgeisydd ______________________

## NODIADAU CYFARWYDDYD
# Y FFURFLEN

**Petae'r awdurdod cynllunio lleol yn ystyried nad oes digon o wybodaeth i bennu eich cais, gall ofyn am fwy. Felly, mae'n llesol i chwi ddarparu gwybodaeth mor gynhwysfawr ag sydd modd.**

*POB YMGEISYDD*

1 Byddwch cystal â chynnwys enw'r person y dylid cysylltu ag ef/hi ynglyn â'r cais hwn. Os yw asiant yn gweithredu ar ran yr ymgeisydd, gyrrir pob gohebiaeth at yr asiant.

2. (i)-(iv). Dylid llenwi'r rhannau hyn mor gynhwysfawr ag sydd modd, gan roi enw llawn y safle sy'n destun y cais, a'r arwynebedd mewn **ha**.

(v)-(vi). Dylai ymgeiswyr nodi eu diddordeb yn y safle a'r tir cyfagos (h.y., a ydynt yn berchen y tir neu'n dal dewis arno; neu faint sydd gan brydles i redeg, etc.)

3. A fyddwch cystal â nodi y dylid cyflwyno ceisiadau am y math o ddatblygu mwynau nas cynhwysir mewn categoriau a nodir yn Atodlen 1(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar y ffurflenni cais safonol (e.e., gwaith asffalt annibynnol ar safleoedd nad ydynt gerllaw datblygiadau mwynau).

**Cynghorir ymgeiswyr sy'n ceisio caniatâd i amrywio amodau yn gryf iawn i ymgynghori â'r ACLL er mwyn gwybod pa wybodaeth sydd ei angen, a chyfeirio at Reoliad 3 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau) 1988. Mae Rheoliad 3 yn mynnu bod ymgeiswyr yn cyflwyno cais ysgrifenedig am amrywio, ac yn rhoi digon o wybodaeth i alluogi'r awdurdod i adnabod y caniatâd cynllunio blaenorol ac unrhyw amod dan sylw. Er, mewn llawer achos, bod modd gwneud hyn trwy lythyr, mae gan yr ACLL bwerau dan Reoliad 4 i gyfarwyddo'r ymgeisydd i roi unrhyw wybodaeth bellach sydd ei angen. Yn yr achosion hyn, llenwi'r ffurflen a'r atodiadau perthnasol fydd y ffordd fwyaf cyfleus o ddarparu'r wybodaeth.**

4 (i)Gellir cynnwys mwy nag un categori yn eich ymateb.

Os yw eich cais yn cynnwys:

- **Cloddio am fwynau: llenwch Atodiad 1 hefyd.**
- **Prosesu mwynau: llenwch Atodiad 1 hefyd.**
- **Adeiladau, offer neu strwythurau eraill cysylltiedig â datblygu mwynau ac nas cynhwysir uchod: llenwch Atodiad 1 hefyd.**
- **Chwilio am fwynau: llenwch Atodiad 1 ac Atodiad 2 hefyd.**
- **Cloddio Dan Ddaear: llenwch Atodiad 1 ac Atodiad 3 hefyd.**
- **Gwaredu ar yr wyneb swm mawr o wastraff pwll neu chwarel: llenwch Atodiad 1 ac Atodiad 4 hefyd.**
- **Gwaith olew neu nwy: llenwch Atodiad 1 ac Atodiad 5 hefyd.**

**(ii) Mae angen disgrifiad byr o'ch cynnig yma, gan y bydd atebion i gwestiynau eraill yn egluro mwy ar y cynnig. Seilir y teitl mewn gohebiaeth ar hyn.**

5 O ddewis, dylai pob cynllun fod yn seiliedig ar fap arolwg Ordnans, gyda'r teitl yn glir, a chyda cyfeirnod unigryw. Dylent hefyd gynnwys cyfeirnod hawlfraint yr Arolwg Ordnans. Dylid eu harwyddo a'u dyddio yn wastad.

**Ym mhob achos, rhaid i ymgeiswyr roi cynllun o'r lleoliad gydag ardal y cais wedi'i marcio'n glir.** Yn y rhan fwyaf o achosion o gladdu am fwynau neu waredu gwastraff, bydd angen y cynlluniau, rhanluniau a'r darluniau canlynol.

**Cynllun(iau) Lleoliad:** Dylai'r rhain fel rheol fod ar raddfa o 1:50,000 lle bo hynny'n briodol, ond heb fod yn fwy na 1:10,000.

**Cynllun(iau) Safle:** Dylai'r rhain fel arfer fod ar raddfa o 1:2,500 (er y gall cynlluniau ar raddfa fwy fod yn briodol mewn rhai achosion) a dylent ddangos y wybodaeth ganlynol:

(i) y tir y mae a wnelo'r cais ag ef, wedi ei amlinellu mewn coch. A fyddwch cystal â nodi y dylid cynnwys y llwybrau mynediad rhwng y safle a'r briffordd gyhoeddus, unrhyw waith tirweddu, byndiau mwynder a thyllau cloddio i fonitro nwy mewn tir a lanwyd, etc. y tu mewn i'r llinell goch, a dylid hefyd dangos unrhyw dyllau cloddio i fonitro nwy sydd y tu allan i'r brif safle;

(ii) unrhyw dir cyffiniol arall dan reolaeth yr ymgeisydd, wedi'i amlinellu mewn glas;

(iii) unrhyw dir ar neu gerllaw'r safle a ddefnyddiwyd ar gyfer gwaith mwynau, gwaredu gwastraff neu ddatblygiad cysylltiol, gan gynnwys safle gweithio/tipio, mannau a adferwyd, etc., ac unrhyw gyfeirnodau caniatâd cynllunio;

(iv) safle'r fynedfa gerbydau bresennol i'r safle;

(v) safle unrhyw adeiladau presennol, gwasanaethau tanddaear, gwifrau uwchben, hawliau tramwy cyhoeddus, llwybrau troed neu lwybrau ceffyl ar neu gerllaw'r safle;

(vi) safle waliau, cloddiau a choed ar a gerllaw'r safle;

(vii) cyfuchliniau presennol ar lefelau priodol ar y safle ac fel arfer am bellter o 250 metr o leiaf y tu allan i'r safle i ddarlunio perthynas y safle â'r topograffeg lleol. **Ar gyfer olew a nwy**, mae angen pellter mwy o 500m y tu allan i'r safle o leiaf.

(viii) safle unrhyw gyrsiau dwr, cylfatiau, ffosydd draenio neu byllau ar y safle neu'n ffinio â hi, gan ddangos cyfeiriad y llif lle bo hynny'n briodool.

(ix) nodweddion o ddiddordeb archeolegol;

(x) safle pyllau prawf a thyllau profi.

**Cynllun(iau) Gwaith:** Dylai'r rhain fod ar yr un raddfa â chynllun y safle, a chynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) unrhyw ddarnau o dir lle mae cloddio i ddigwydd ac unrhyw ddarnau i'w llenwi i mewn, y dylid medru gwahaniaethu yn hawdd rhyngddynt. Dylai'r cyfryw ffiniau roi digon o ymyl diogelwch i warchod hawliau tramwy, rheilffyrdd, cyrsiau dwr, gwasanaethau, adeiladau, coed, etc. sydd i'w cadw heb darfu arnynt;

(ii) cynigion ar gyfer storio uwch-bridd, is-bridd a gorlwyth (ac eithrio byndiau sgrinio);

(iii) cynigion ar gyfer sgrinio a thirweddu'r gwaith, gan gynnwys manylion byndiau sgrinio (os mai dros dro ydynt, rhowch ddyddiad eu symud) a phlannu coed ymlaen llaw (rhowch fath, maint, gofod rhyngddynt a dull cynnal);

(iv) lleoliad offer prosesu ac offer arall, pentyrrau stoc, gan gynnwys gwastraff mwynau parhaol neu dros dro, adeiladau, swyddfeydd, pontydd pwyso, glanhawyr olwynion, etc. *(Noder: dylid nodi uchafswm uchder pentyrrau stoc, a rhoi manylion ar ddarluniau ar gyfer offer ac adeiladau - gweler isod);*

(v) manylion ffensys a threfniadau diogelwch eraill;

(vi) dull, cyfeiriad a chyfnod y gwaith, cloddio, tyllu a llenwi, os yn berthnasol. (Noder: dylid rhoi amcangyfrif o hyd pob cyfnod);

(vii) safle unrhyw gyrsiau dwr a wyrwyd, lagwnau, sistemau casglu trwytholchion, ffynhonellau cyflenwadau dwr, dulliau draenio a safle unrhyw arllwysiadau dwr sy'n mynd i gyrsiau dwr sy'n bodoli eisoes;

(viii) safle cyfleusterau monitro a rheoli nwy o safleoedd claddu sbwriel, os yn berthnasol;

(ix) dylid cyflwyno cynllun(iau) ar wahân sy'n rhoi manylion llawn am y fynedfa newydd i gerbydau (os yn berthnasol) a'r llwybr o'r safle at y briffordd gyhoeddus. Dylid cyflwyno cynllun manwl y gyffordd fynediad â'r briffordd gyhoeddus ar gynllun ar wahân ar raddfa o 1:100 neu raddfa briodol gyffelyb. Dylai hwn ddangos lled y ffordd, dull ei chodi, y radii troi a'r llinellau gweledig;

(x) manylion y mesurau arfaethedig i wyro, symud neu osgoi gwifrau uwchben a gwasanaethau eraill, neu gau, symud neu wyro hawliau tramwy cyhoeddus, gan gynnwys llwybrau troed a llwybrau ceffyl;

(xi) ar gyfer cloddio tanddaear, safle pob mynedfa i'r pwll (gan gynnwys siafftiau awyru, etc.), mannau sy'n debyg o ymsuddo, a mannau i'w gadael heb eu gweithio er mwyn rhoi cynhaliaeth;

(xii) Yn ychwanegol, **ar gyfer cynigion olew neu nwy**, lle bo hynny'n berthnasol, llwybr arfaethedig yr arolwg, lleoliad safleoedd ffynhonnau, nifer ffynhonnau, pibellau, gwasanaethau ategol a lleoliad cyfleusterau cynnull, gan gynnwys sgrinio, tirweddu a dylunio.

**Cynllun(iau) adfer, Ôl-ofal ac Ôl-ddefnydd:** Dylai'r rhain fod ar yr un raddfa â chynllun y safle, gan ddangos sut yr adferir y safle yn ystod ac ar ôl cwblhau'r gwaith. Dylent gynnwys y wybodaeth ganlynol:

(i) cyfuchliniau terfynol y tir (gyda'r rhediadau nodweddiadol wedi eu nodi). Fel rheol, dylid ymestyn y cyfuchliniau am bellter o 250 metr o leiaf y tu allan i'r safle, er mwyn darlunio perthynas y tir a adferwyd â thopograffeg yr ardal o gwmpas;

(ii) dyfnder y pridd a roddwyd yn lle'r hyn a symudwyd, ac o lle daeth;

(iii) safle unrhyw nodweddion dwr parhaol, ynghyd ag amcangyfrif o ddyfnder y dwr a manylion am driniaeth nodweddiadol i'r ymylon;

(iv) cynigion i ddraenio'r tir a adferwyd, os ydynt yn hysbys, gan gynnwys safle'r draeniau cae, ffosydd, pympiau a chyrsiau dwr (gan gynnwys cyfeiriad y llif) a mannau arllwys parhaol i'r cyrsiau dwr o'u hamgylch;

(v) safle coed, llwyni a gwrychoedd presennol i'w cadw ar y safle wedi cwblhau'r gwaith, a manylion am goed, etc. i'w plannu (cofiwch gynnwys y dyddiad y disgwylir plannu);

(vi) unrhyw gynigion tirweddu eraill a darpariaeth ar gyfer mynediad i'r cyhoedd neu fynedfeydd eraill;

(vii) ar gyfer olew neu nwy, camau adferol i atal llygru'r tir wedi i'r cloddio a'r prosesu ddod i ben (os yw hyn yn berthnasol);

**Rhanluniau a Phroffiliau:** Dylai'r rhain fod fel a ganlyn:

(i) rhanluniau cynrychioliadol yn dangos lefelau wyneb presennol a therfynol, gydag amcan o unrhyw setlo tebygol. Lle cloddir am fwynau, uchafswm dyfnder y cloddio, a, lle bo hynny'n gymwys, dylid dangos lefelau uchafswm y tabl dwr gaeaf a safle wyneb y chwarel;

(ii) ar gyfer gweithio mwynau, dylid cyflwyno rhanluniau a deiagramau o dyllau archwilio sy'n gwahaniaethu rhwng uwch-bridd, is-bridd a gorlwyth, gan ddisgrifio nodweddion a thrwch pob un;

(iii) yn achos tyllu am fwynau, dylai'r wybodaeth am y pwll/twll archwilio hefyd gynnwys trwch a nodweddion y mwyn(au) y cloddir amdano/amdanynt, ac unrhyw ddefnydd gwastraff rhynghaenol sy'n rhaid ei symud, y ddaeareg sylfaenol a safle'r tabl dwr;

(iv) yn achos uwch-bridd, is-bridd, gorlwyth a thomenni gwastraff mwynau, dylid dangos proffiliau a rhediadau nodweddiadol y tomenni.

**Cynlluniau ar gyfer Adeiladau, Offer a Strwythurau**:

Onid oes ffactorau arbennig sydd yn atal eu cyflwyno, dylid cyflwyno cynlluniau manwl ar gyfer pob adeilad offer a strwythur sefydlog ar yr un pryd â gweddill y cais. Fel rheol, dylai'r cynlluniau hyn fod ar raddfa o 1:500, a dylent gynnwys cynlluniau daear, gweddluniau, a dangos math a lliw y defnyddiau allanol a ddefnyddir. Dylid cynnwys pontydd pwyso, offer sefydlog ar gyfer glanhau olwynion, ac uchafswm maint y pentyrrau stoc.

## 6 Datganiadau Amgylcheddol

i) Os yw eich cynnig yn debyg o gael effeithiau arwyddocaol ar yr amgylchedd, mae bron yn sicr y bydd angen iddo fod yn destun asesiad o'r effeithiau hynny dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad o'r Draweffaith Amgylcheddol)(Cymru a Lloegr) 1999. Amlinellir y meini prawf a'r trothwyon dangosiadol ar gyfer cynigion mwynau sydd angen asesiad amgylcheddol yng Nghylchlythyr Adran yr Amgylchedd 11/99.

Mater i'r awdurdod cynllunio mwynau yw penderfynu a oes raid i ddatganiad amgylcheddol fod yn rhan o'ch cais ai peidio, ( barn gwmpasu ) (er y medrwch wneud cais i Cynulliad Cenedlaethol Cymru am gyfarwyddyd gwmpasu os anghytunwch â'r penderfyniad). Gan bod datganiadau amgylcheddol fel arfer yn cymryd misoedd lawer i'w paratoi, fe'ch cynghorir yn gryf i ddarganfod yn gynnar iawn, mewn trafodaethau cyn y cais gyda'r swyddogion cynllunio, a fydd angen cyflwyno datganiad amgylcheddol gyda'ch cais.

ii) Dylai ymgeiswyr wneud yn glir lle mae modd archwilio'r wybodaeth mewn man ar wahan i swyddfeydd yr ACM. Gall hyn gynnwys eu swyddfeydd eu hunain. Hefyd, dylai'r sawl sy'n gwneud y gwaith nodi lle mae modd cael copiau o'r Datganiad Amgylcheddol, a faint, os o gwbl, mae'n gostio.

iii) Dylai ymgeiswyr nodi a gyflwynir datganiad ategol ai peidio gyda'r cais.

7 Dan Erthygl 7 o'r Gorchymyn Trefniadaeth Datblygu Cyffredinol 1995,mae gofyn i ymgeiswyr hysbysu'r ACLL mai hwy yw perchenogion y tir sy'n destun datblygu neu eu bod wedi hysbysu'r perchenogion ac unrhyw denantiaid, gan gynnwys tenantiaid amaethyddol, ar y tir o'u cynigion.

Rhaid i ymgeiswyr ofalu, wrth wneud cais cynllunio, bod y tystysgrifau perthnasol wedi eu llenwi i ddangos yr hysbyswyd holl berchenogion a thenantiaid y tir y mae a wnelo'r cais ag ef. Rhaid cwblhau'r Tystysgrifau canlynol, yn dibynnu ar amgylchiadau perchenogaeth y tir.

**Tystysgrif A:** Rhaid cwblhau hon pan mai'r ymgeisydd yw unig berchennog y tir y mae a wnelo'r cais ag ef, a lle na osodwyd dim o'r tir allan i neb arall.

**Tystysgrif B:** Rhaid llenwi hon pan fo pob perchennog/tenant y mae a wnelo'r cais â hwy yn hysbys ac wedi eu hysbysu am y cais. Dylid nodi enwau'r bobl hynny, y cyfeiriadau lle gyrrwyd unrhyw hysbysiadau, a dyddiad pob hysbysiad.

**Tystysgrif C:** Rhaid llenwi hon pan na all yr ymgeisydd nodi pob perchennog/tenant, gan gynnwys tenatiaid amaethyddol, y tir y mae a wnelo'r cais ag ef, neu lle all nodi rhai ohonynt.

**Tystysgrif D:** Rhaid llenwi hon os na fedr yr ymgeisydd gyflwyno unrhyw rai o'r tystysgrifau uchod gan na all yr ymgeisydd ddod o hyd i'r perchennog(ion)/tenant(iaid) neu na all gyflwyno rhybudd iddynt.

**Tystysgrif Daliad Amaethyddol:** Rhaid llenwi hon gan bob ymgeisydd i nodi naill ai nad oes unrhyw ran o'r tir yn ddaliad amaethyddol neu, os ydyw, y rhoddwyd hysbysiad i bob tenant amaethyddol ar y tir.

Os yw'r cynnig yn cynnwys gweithio danddaear am fwynau, yna dylai'r ymgeisydd gysylltu â'r ACLL, gan bod y drefn ardystio yn wahanol i'r uchod.

**HYSBYSIAD PWYSIG AM DROSEDDAU CYFREITHIOL**

Bydd unrhyw un sy'n cyhoeddi Tystysgrif sy'n cynnwys datganiad y gwyr ef sy'n ffug neu sydd yn ddi-hid yn cyhoeddi Tystysgrif sy'n cynnwys datganiad sy'n ffug neu'n gamarweiniol, yn euog o drosedd ac yn agored ar gollfarn ddiannod, fel a nodir yn Neddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio a Iawndal 1991.

Ystyr "perchennog" yw rhywun sydd â diddordeb rhydd-ddaliad neu ddiddordeb prydles, sydd â mwy na 7 mlynedd i redeg, neu, yn achos datblygiad o gael a gweithio mwynau, rhywun sydd â hawl i ddiddordeb yn y tir (ac eithrio olew, nwy, aur neu arian).

8. Mae gofyn i ymgeiswyr gyflwyno ffi gyda'u cais. Ceir manylion llawn am y ffioedd taladwy yn yr argraffiad diweddaraf o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd ar gyfer Ceisiadau Cynllunio a Cheisiadau a Bennwyd). Bydd y ffioedd yn newid o dro i dro, a gellir cael manylion y ffioedd diweddaraf o'r swyddfa lle cawsoch y nodiadau hyn. Dylid cyflwyno'r ffioedd taladwy gyda'ch cais, a gwneud y siec yn daladwy i'r ACLL perthnasol.

9. Rhaid i bob cais fod wedi arwyddo, yn cadarnhau'r datganiad.

# ATODIAD 1: CLODDIO AM FWYNAU A'U PROSESU

| AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG | |
|---|---|
| **Cais rhif:** | |
| **Dyddiad:** | |

## Cais i Wneud Gwaith Mwynau a Datblygu Cysylltiedig

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

*NODER: DYLAI POB YMGEISYDD LENWI'R HOLL GWESTIYNAU PERTHNASOL YNGLYN Â CHLODDIO AM FWYNAU A'U PROSESU.*

**Cloddio am Fwynau**

A1.1 Nodwch:

(i) Mwynau i'w cloddio

(ii) Cyfanswm mwynau gwerthadwy i'w cloddio ____________________ tunnell fetrig

(iii) Ardal cloddio ____________________ ha

(iv) Uchafswm dyfnder gwaith ar yr wyneb ____________________ m

(v) Amser arfaethedig y byddir yn gweithio mwynau

Hyd y gwaith ____________________ .blwyddyn

Dyddiad cychwyn ____________________ Dyddiad gorffen ____________________

(vi) Defnydd terfynol(e.e., adeiladu, prosesau diwydiannol, etc.) ac gyrchfan cyntaf arfaethedig y cynhyrchion mwynau.

(vii) Lleoliad unrhyw waith prosesu oddi ar y safle.

A1.2 Ar gyfer gwaith mwynau ar yr wyneb neu osod gwastraff mwynau ar dir, rhowch y wybodaeth ganlynol yng nghyswllt pridd a gorlwyth, a graddfa unrhyw dir amaethyddol:

(i)

| | Dyfnder(mm) | | Cyfaint (m3) |
|---|---|---|---|
| | (Cyfartaledd) | (Amred) | |
| Uwch-bridd ar y safle eisoes | | | |
| Is-bridd ar y safle eisoes | | | |
| Gorlwyth i'w symud | | | |

(ii) Nodwch arwynebedd y tir amaethyddol (ha.) a'r graddfeydd yr effeithir arno dan ddosbarthiad Tir Amaethyddol trwy'r cloddio.

(iii) Crynhowch y ddarpariaeth a wneir am storio pridd neu orlwyth dros dro neu yn barhaol.

A1.3 Cynhowch pa wastraff fydd yn deillio o waith cloddio (mathau a meintiau).

A1.4 Crynhowch y broses fantoli a ddilynir i asesu maint ac ansawdd y mwynau, a'u canlyniadau.

A1.5 Crynhowch y dull arfaethedig o gloddio a'r cynllun gwaith, gan gynnwys gosod cyfnodau.

## Prosesu Mwynau

A1.6 Math a maint o ddefnydd i'w brosesu ar y safle

| Math | Uchafswm t.f. y flwyddyn |
|---|---|
| | |
| | |
| | |

A1.7 Cynhyrchion mwynau o'r prosesu:

math a) ____________ Amcangyfrif o gynnyrch blynyddol ____________ t.f.

math b) ____________ Amcangyfrif o gynnyrch blynyddol ____________ t.f.

math c) ____________ Amcangyfrif o gynnyrch blynyddol ____________ t.f.

A1.8 Crynhowch yr offer a'r peiriannau i'w defnyddio i brosesu mwynau.

A1.9

(i) Uchafswm uchder yr offer wedi'i fesur o lefel bresennol y ddaear ____________ m

(ii) Uchafswm uchder pentyrrau stoc neu gyfleusterau stocio ar gyfer defnydd wedi ei brosesu o'i fesur o lefel presennol y ddaear ____________ m

A1.10 Cynhwysedd offer

| | T.F. yr awr | T.F. y flwyddyn |
|---|---|---|
| Amcangyfrif o gynhwysedd normal y gwaith prosesu. | | |
| Amcangyfrif o uchafswm cynhwysedd y gwaith prosesu | | |

A1.11 Ffynhonnell dwr (os oes un) i'w ddefnyddio wrth brosesu:

A1.12 Manylion am wastraff yn codi o'r prosesu:

(i) Natur y gwastraff ______________________ m

(ii) Amcangyfrif o swm blynyddol a gynhyrchir __________________ $m^3$

(iii) Nodwch uchafswm uchder(au) unrhyw domen(ydd) gwastraff, o'u mesur o lefel bresennol y ddaear ____________ m

(iv) A yw'n fwriad lleoli tomenydd gwastraff o fewn ardal y cloddio? YDYW/NAC YDYW

(v) A yw'n fwriad gwaredu unrhyw wastraff ar safle ar wahân? YDYW/NAC YDYW

Os ydyw, nodwch lle ______________________________________________

(vi) Nodwch ddulliau i'w defnyddio i gludo gwastraff (e.e., pibell, belt cludo)

(vii) A fydd prosesu'r mwynau yn golygu cael lagwnau sorod? BYDD/NA FYDD

## Adeiladau, Offer neu Strwythurau Eraill

A1.13 Disgrifiwch yn fyr:

(i) Ddiben yr adeiladau

(ii) Faint a golwg yr adeiladau, etc.

A1.14 A fyddai unrhyw waith ategol yn para y tu hwnt i gyfnod cloddio am y mwynau? BYDDAI/NA FYDDAI

Os byddai, disgrifiwch y gwaith hwn.

## Trafnidiaeth a Chludiant

A1.15 Crynhowch y dull(iau) o gludo'r defnydda broseswyd.

A1.16 16 A yw'n fwriad defnyddio mynedfa bresennol i safle'r cais? YDYW/NAC YDYW

A1.17 A yw'n fwriad codi mynedfeydd newydd neu wneud newidiadau i fynedfeydd presennol? YDYW/NAC YDYW

Os ydyw, crynhowch y cynigion.

A1.18

| | Cyfartaledd | Uchafswm |
|---|---|---|
| Amcangyfrif o nifer y cerbydau llwythog sy'n debyg o fynd a dod o'r safle bob dydd. | | |
| Amcangyfrif o gynhwysedd y cerbydau llwythog. | | |

(iii) Crynhowch y llwybrau a ddefnyddir tuag at y prif rwydwaith ffyrdd wrth adael safle'r cais.

(iv) Dulliau arfaethedig i'w defnyddio i reoli effeithiau trafnidiaeth.

## Effeithiau Amgylcheddol y Datblygiad

A1.19 Hyd y gwyddoch, a oes unrhyw ran o safle'r cais yn dod dan ddynodiadau statudol, gan gynnwys cynefinoedd rhywogaethau a warchodir? OES/NAC OES

Os oes, nodwch y rhain.

A1.20 Oriau arfaethedig gweithio ar y safle

| | Cyfnodau amser(oriau) | Dyddiau'r wythnos |
|---|---|---|
| (i) Stripio pridd a symud gorlwyth | | |
| (ii) Gweithio mwynau | | |
| (iii) Prosesu mwynau | | |
| (iv) Symudiadau cerbydau | | |
| (v) Arall (nodwch) | | |

A1.21 Lefelau swn a chamau rheoli arfaethedig

(i) Nodwch lefelau swn cefndir presennol ar ffiniau'r safle a/neu'r eiddo agosaf, lle'u mesurwyd (dileer fel sy'n briodol).

(ii) Nodwch lefelau swn a ragwelir ar ffiniau'r safle a/neu'r eiddo agosaf lle'r aseswyd hwy (dileer fel sy'n briodol).

(iii) Disgrifiwch gamau i reoli swn a dulliau monitro swn (fel sy'n berthnasol).

A1.22 Disgrifiwch y camau arfaethedig i reoli ac atal llwch (gan gynnwys trin pentyrrau storio) a lleihau lledaeniad unrhyw fwynau a gwastraff i'r briffordd gyhoeddus.

A1.23 Ffrwydro (lle bo'n berthnasol)

(i) A fydd angen ffrwydro i gael y mwynau? BYDD/NA FYDD

Os bydd, nodwch uchafswm lefelau dirgrynu'r ffrwydriadau ar eiddo gerllaw.

(ii) Nodwch amcangyfrif o amlder ac oriau'r ffrwydro (dyddiau'r wythnos; eraill).

(iii) Nodwch rybuddion cyhoeddus arfaethedig ar gyfer ffrwydro.

(iv) Nodwch y dulliau penodol o fonitro dirgryniadau o'r ffrwydro.

A1.24 A fydd unrhyw ddefnydd peryglus yn cael ei ddefnyddio neu ei storio ar y safle? BYDD/NA FYDD

Os bydd, nodwch y math a'r dull storio.

A1.25 Dwr

(i) Amlinellwch unrhyw gamau arfaethedig i reoli llygredd dwr a mesurau rheoli draenio/llifogydd.

(ii) Os bydd y gwaith yn digwydd islaw'r tabl dwr naturiol, a fydd y gweithio yn (dileer yn ôl y galw). WLYB/SYCH

Os mai sych fydd, disgrifiwch y dulliau arfaethedig o ddad-ddyfrio, dull arfaethedig o waredu'r dwr, ac unrhyw gamau lliniaru arfaethedig.

(iii) Nodwch pa gamau a gymerir i atal olew tanwydd rhag gollwng wrth gael ei gludo, ei storio a'i drin ar y safle.

A1.26 Dywedwch a fydd unrhyw brosesau'n cael eu cofrestru fel (Rh Ll C) neu (Rh Ll A) o dan Rhan 1 o'r Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990, a disgrifiwch natur y gwaith hwn.

A1.27 A yw eich cynnig yn effeithio ar hawl tramwy cyhoeddus? YDYW/NAC YDYW

Os ydyw, gofalwch nodi gwyriadau a/neu gau arfaethedig ar gynllun.

A1.28 Amlinellwch unrhyw effaith weledol a chynigion tirweddu yn ystod y gwaith.

A1.29 Amlinellwch unrhyw gamau i sicrhau sefydlogrwydd ffâs gwaith, tomenydd a strwythurau cysylltiedig.

## Claddu Gwastraff ar Safleoedd Cloddio Mwynau (i'w lenwi lle bo'n berthnasol)

A1.30 A yw eich cynnig yn cynnwys claddu unrhyw wastraff a fewnforir? YDYW/NAC YDYW

Os ydyw, nodwch:

(i) Amcangyfrif o uchfaswm y lle gwag i'w lenwi ______________________ $m^3$

(ii) Cyfanswm yr arwynebedd arfaethedig i'w lenwi ______________________ ha

A1.31 Natur y defnydd i'w roi ac amcangyfrif o gyfradd blynyddol y gwaredu (ac eithrio defnydd ar gyfer ffurfio, gorchuddio ac adfer pridd), os yn hysbys.

| | Swm($m^3$) y.f. | Natur | Cyfran sy'n ddifywyd | Ffynhonnell(au) |
|---|---|---|---|---|
| O gartrefi | | | | |
| Diwydiannol | | | | |
| Masnachol | | | | |
| Gwastraff arall (nodwch) | | | | |

A1.32 Nodwch natur unrhyw ddatblygiad adeiledig o fewn 250 metr i'r mannau lle bwriedir claddu gwastraff o gartrefi, diwydiannol neu fasnachol.

A1.33 Crynhowch y camau arfaethedig ar gyfer monitro a rheoli:

(i) Nwy o wastraff a gladdwyd;

(ii) trwytholchion.

## Adfer, Ôl-ofal ac Ôl-ddefnydd

A1.34

(i) Crynhowch yr ôl-ddefnydd neu'r ôl-ddefnyddiau arfaethedig:

Amaethyddol IE/NA Cyfanswm arwynebedd ____________ ha

Coedwigaeth IE/NA Cyfanswm arwynebedd ____________ ha

Mwynder(nodwch) IE/NA Cyfanswm arwynebedd ____________ ha

Arall (nodwch) IE/NA Cyfanswm arwynebedd ____________ ha

(ii) A fydd yr adfer âr ôl-ddefnydd mewn cyfnodau? BYDD/NA FYDD

Os bydd, crynhowch nifer a hyd y cyfnodau

A1.35 Rhowch fanylion defnydd arfaethedig y pridd wrth adfer

| | Cyfansymiau(m3) | Cyfanswm trwch i'w daenu (mm) |
|---|---|---|
| Uwchbridd o'r safle | | |
| Isbridd o'r safle | | |
| Gorlwyth/defnydd arall gwneud pridd | | |
| Ffynhonellau pridd eraill (nodwch) | | |

A1.36 Crynhowch y dulliau a'r peiriannau a ddefnyddir i stripio, adfer pridd a ffurfio twmpathau storio.

A1.37

(i) A oes unrhyw waith adfer yn debyg o ddigwydd ymhen 12 mis i gychwyn y gwaith? OES/NAC OES

Os oes, disgrifiwch yr ôl-ofal arfaethedig.

(ii) Os na, crynhowch yr eitemau y bwriedir eu cynnwys yn y cynllun ôl-ofal, i gytuno arno yn ddiweddarach, gan gynnwys rheoli'r tir yn ystod y cyfnod ôl-ofal a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer y tymor hwy.

(iii) Pwy fuasai'n gwneud y gwaith ôl-ofal?

(iv) A oes unrhyw gynigion neu gytundebau penodol i reoli'r tir wedi cwblhau'r "ôl-ofal"? OES/NAC OES

Os oes crynhowch.

## Manteision y Datblygiad

A1.38 Nodwch fanteision y cynigion.

# NODIADAU CYFARWYDDYD AR GYFER CLODDIO A PHROSESU MWYNAU

## Cloddio Mwynau

**A1.1** Dylid llenwi hwn ar gyfer pob cynnig sy'n ymwneud â chloddio mwynau. Dylid croes-gyfeirio hefyd at gynlluniau a darluniau a gyflwynwyd gyda'r cais.

**A1.2** Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i bridd a gorlwyth. I'r perwyl hwn, gwell fuasai rhoi crynodeb o ganlyniadau arolygon pridd ac ymchwiliadau i safleoedd mewn datganiad ategol, gyda chofnodion a chanlyniadau llawn unrhyw brofion yn cael eu darparu fel atodiad i'r datganiad.

Dylid rhoi ystyriaeth arbennig hefyd i leoliad a chynllun pob tomen storio pridd a gorlwyth, a dylid nodi amseriad eu codi a'u symud.

Dylid nodi graddfa unrhyw dir amaethyddol yr effeithir arno gan y datblygiad arfaethedig (Graddfeydd 1,2,3a, 3b, 4,5) a dylid hefyd gael arwydd clir o sut y pennwyd graddfa amaethyddol y pridd (e.e., gan ddefnyddio Mapiau Dosbarthiad Tir Amaethyddol y WAPB, neu arolwg arbennig).

**A1.3** Dylid darparu manylion gwastraff sy'n deillio o'r prif waith cloddio, gan gynnwys natur y gwastraff ac amcangyfrif o'r cyfanswm a gynhyrchir (heb gynnwys y gorlwyth), gan gynnwys cyfran y gwastraff i'w gadw ar y safle. Dylid hefyd rhoi dulliau gwaredu gwastraff nas cedwir ar y safle. Os bydd symiau sylweddol o wastraff yn cael eu tipio ar wahân mewn mannau penodol ar wyneb y tir am dymor hir, a fyddwch hefyd cystal â llenwi Atodiad 4.

**A1.4** Os bydd y cynnig yn cynnwys mwynau gyda nodweddion arbennig, neu bod ei angen i gyflenwi angen masnachol neu farchnad benodol, dylai'r ymgeiswyr roi manylion, er mwyn medru ystyried y ffactor hon. Os cyflwynir y math hwn o wybodaeth, dylai ymgeiswyr hefyd roi manylion am y camau a gymerwyd, gan gynnwys tystiolaeth, i asesu ansawdd a swm y defnydd (gan gynnwys lleoliad tyllau archwilio, ffosydd, etc.) a chanlyniad unrhyw ddadansoddiad arall a wnaed.

**A1.5** Dylid darparu gwybodaeth i nodi'r dull o gloddio. Dylid rhoi gwybodaeth hefyd ynglyn â hyd arfaethedig y tyllu, a dylai hyn gynnwys manylion dyddiadau cychwyn a gorffen, a chyfnodau unrhyw waith. Lle bo modd, dylid paratoi cynllun gwaith blaengar sy'n cymryd cyn lleied ag sydd modd o dir allan o ddefnydd amaethyddol neu arall ar unrhyw un adeg, ac sy'n hwyluso adfer y safle'n fuan. O ddewis, dylid cyflwyno'r wybodaeth hon mewn datganiad ategol, gan gyfeirio at gynlluniau.

## Prosesu Mwynau

Dylid llenwi'r adran hon, fel sy'n berthnasol i bob cais sydd ag offer prosesu ar safle cais.

**A1.6-12** Noder: Dylid cyflwyno ceisiadau am y mathau o ddatblygu mwynau nas cynhwysir yn y categoriau a nodir yn Atodlen 1(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar ffurflenni cais safonol. Mae Atodlen 1 yn cynnwys gwaith concrid ac asffalt sy'n gysylltiedig â safleoedd mwynau, ond nid yw'n cynnwys gwaith concrid ac asffalt ar eu pennau eu hunain.

Ar gyfer yr adran hon, gwell fuasai ymhelaethu ar atebion yn y datganiadau ategol a'r cynlluniau, er mwyn i'r swyddogion cynllunio lawn sylweddoli diben ac oblygiadau cynllunio tebygol y datblygiad arfaethedig.

## Adeiladau, Offer neu Strwythurau Eraill

**A1.13-14** Llenwch yr adran hon yn unig ar gyfer adeiladau, offer neu strwythurau nas cynhwysir yn unrhyw adran uchod.

A fyddwch cystal â nodi y dylid cyflwyno ceisiadau am y math o ddatblygiad mwynau nas cynhwysir yn y categoriau a nodir yn Atodlen 1(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ar ffurflenni cais safonol.

Lle cyflwynir gwybodaeth, gwell fuasai ymhelaethu arno yn y cynlluniau a'r datganiadau ategol. Dylai'r manylion a roddir fod yn debyg i'r hyn a ddarperir yn yr adran ar brosesu mwynau.

## Trafnidiaeth a Chludiant

**A1.15-18** Bwriadwyd llawer o'r adran hon ar gyfer trafnidiaeth y ffyrdd. A fyddwch cystal â chynnwys manylion trafnidiaeth ar reilffyrdd neu ddwr mewn datganiad ychwanegol a chynlluniau, gan, gynnwys manylion am gyfleusterau safle'r cais, onis cynhwysir uchod.

Ar gyfer trafnidiaeth y ffyrdd, bydd cynllun ategol yn dangos y lefelau traffig ar hyd y llwybrau arfaethedig i loriau gyda a heb lwyth o gymorth arbennig. Ar gyfer dulliau eraill, dylai'r ymgeiswyr roi manylion am y tunnelli sy'n debyg o gael eu symud, amred y cyrchfannau, ac amseriad y symudiadau.

Lle bo angen gwneud gwelliannau i'r briffordd o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig, bydd gofyn i ymgeiswyr fel rheol wneud y rhain ar eu cost eu hunain, neu ad-dalu i'r Awdurdod priffyrdd gost gwneud y cyfryw welliannau. Os bydd y cynnig yn debyg o gynhyrchu cryn swm o draffig cerbydau trwm a/neu y byddai cerbydau trwm yn defnyddio ffyrdd gwael eu hansawdd, lled neu linell, cynghorir ymgeiswyr yn gryf i gysylltu â'r Awdurdod Priffyrdd priodol.

## Effeithiau amgylcheddol y datblygiad

DYLAI'R YMGEISYDD LENWI POB CWESTIWN PERTHNASOL DAN YR ADRAN HON ONI CHYFLWYNIR DATGANIAD AMGYLCHEDDOL GYDA'R CAIS HWN.

A1.19 Dylai ymgeiswyr gyfeirio at GCM2, Ceisiadau, Caniatâd ac Amodau, CCM6, Canllawiau ar gyfer Darpariaeth Cerrig Mâl, NTC (C) 5, Cadwraeth Natur a NTC (C) 9, Cynllunio a Rheoli Llygredd, am gyngor ar ddeddfwriaeth a chyfarwyddyd am geisiadau mwynau mewn ardaloedd gyda dynodiadau statudol.

Ceir nifer helaeth o ddynodiadau statudol, er enghraifft, Parciau Cenedlaethol; Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE); Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SDdGA); Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth; Henebion Rhestredig; neu Warchodfeydd Natur Cenedlaethol (GNC). Hefyd, gall rhai SDdGA gael eu rhestru fel safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol ar gyfer cadwraeth natur megis safleoedd Ramsar, Ardaloedd Gwarchod Arbennig (AGE) i adar; ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) i gynefinoedd a rhywogaethau. Dylai ymgeiswyr, hyd y bo modd, ddarganfod a oes unrhyw ddynodiadau statudol yn bodoli naill ar y safle y bwriedir gweithio arni neu mewn ardaloedd cyfagos.

Dyma ffynhonellau cyngor ar rai dynodiadau statudol:

* **Archeoleg a Henebion -** tynnir sylw ymgeiswyr at Gôd Ymarfer Ymchwiliadau Archeolegol i Weithwyr Mwynau a gyhoeddwyd gan y CBI ym 1991, a Nodyn Cyfarwyddyd Polisi Cynllunio 16, Adran yr Amgylchedd ar Archeoleg a Chynllunio. Os bydd cynnig yn effeithio ar heneb rhestredig, efallai y bydd angen caniatâd heneb rhestredig.

* **Safleoedd ac Adeiladau Hanesyddol -** dylid talu sylw arbennig i effeithiau eich cynnig ar unrhyw adeilad rhestredig (gan gynnwys ei leoliad) neu Ardal Gadwraeth. Lle bo hynny'n briodol, fe'ch cynghorir i gysylltu â English Heritage neu Cadw. Yn ychwanegol at unrhyw ganiatâd cynllunio a geir, efallai y bydd angen caniatâd Adeilad Rhestredig neu Heneb.

* **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig -** tynnir sylw ymgeiswyr at Nodyn Technegol Cynllunio (Cymru) 5, Cadwraeth Natur. Noda hwn y meini prawf rheoli datblygu gan gynnwys y rheiny ar gyfer safleoedd gyda dynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol ychwanegol.

* **Dynodiadau Statudol Eraill -** hwyrach y bydd gofyn i ymgeiswyr drafod cynigion gyda swyddog priodol o Gyngor Cefn Gwlad Cymru, ond yn y lle cyntaf, dylid ceisio cyngor gan y ACLL.

Yn ychwanegol, dylai ymgeiswyr geisio, cyn belled ag y bo modd, ddarganfod a oes unrhyw gynefinoedd rhywogaethau a warchodir ar y safle. Gellir cael gwybodaeth am rywogaethau a warchodir yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (a newidiadau); Deddf Moch Daear 1992; Cyfarwyddyd 79/409/Cyngor y GEE ar Gadwraeth Adar Gwylltion a Chyfarwyddyd 92/43/GEE ar Gadwraeth Cynefinoedd Naturiol a Fauna a Flora Gwyllt.

A1.20 Dylid rhoi manylion ynglyn â chyfanswm yr oriau y rhagwelir y byddir yn gweithio, a hynny ar wahân i weithgareddau gwahanol fydd yn digwydd ar y safle, gan gynnwys adrannau ar wahân i waith yn ystod yr

wythnos a gwaith dros y Sul. (Fel rheol, ni ddylid gweithio ar y Sul nac ar Wyliau'r Banc). Dylai ymgeiswyr nodi a yw'r oriau hyn yn cynnwys gwaith cynnal ai peidio. Nodwch fanylion ar wahân ar gyfer:

- chwilio am fwynau;
- stripio pridd a symud gorlwyth;
- gweithio mwynau;
- prosesu mwynau;
- symudiadau cerbydau.

Os bydd gwaith yn debyg o fod yn ysbeidiol, dylid nodi hyn yn glir, a rhoi'r cyfnodau gwaith arfaethedig ar wahân.

A1.21 Dylai ymgeiswyr gyfeirio at y cyngor manylach sydd yn Nodyn Cyfarwyddo 11 Cynllunio Mwynau - Rheoli Swn mewn Gwaith Mwynau ar yr Wyneb. Dylai ymgeiswyr roi gwybodaeth ar lefelau swn arfaethedig trwy gydol gwahanol gyfnodau'r gwaith. Dylai'r wybodaeth gynnwys y swn gwirioneddol neu'r hyn a ragdybir ddaw o offer penodol, hyd yr amser y bydd yr offer yn cael ei ddefnyddio, camau a gymerir i reoli swn (e.e., rhagfuriau sgrinio neu ffurfiau eraill o rhagfur swn a godir), a dulliau o weithio allan faint o swn sy'n deillio o'r safle.

Lle bwriedir gwneud y datblygiad gerllaw eiddo sy'n sensitif i swn, megis tai annedd, ysgolion, ysbytai a mannau adloniant, dylai'r ymgeiswyr roi manylion am lefelau swn yn yr eiddo neu'r mannau a restrir ar gyfer datblygiadau o'r fath. Onid oes eiddo sy'n sensitif i swn yn debyg o ddod dan effaith y swn, dylai'r ymgeiswyr roi lefelau swn ar ffiniau'r safle. Dylai'r ymgeiswyr nodi a fydd angen codi'r terfynau swn dros dro ar gyfer gweithgareddau dros dro, gan nodi beth fydd y gweithgareddau hyn. Dylid rhoi manylion hefyd am y camau arfaethedig i fonitro a rheoli swn. Tra mai'r ffordd orau i drin gwybodaeth o'r fath yw mewn datganiad ategol, oni fwriada'r ymgeisydd ddarparu'r cyfryw ddogfen, dylid rhoi'r wybodaeth ar y ffurflen.

A1.22 Dylai ymgeiswyr nodi'r dulliau o reoli ac atal llwch o waith cloddio a phrosesu, gan gynnwys trin uwchbridd a thomenydd storio isbridd. Dylent hefyd nodi pa gamau y bwriedir eu cymryd i leihau lledaenu mwd, mwynau neu wastraff ar y briffordd gyhoeddus o'r gwaith cludo (e.e., glanhau olwynion, gorchuddio loriau, etc.).

A1.23 Lle bo hynny'n berthnasol, dylai ymgeiswyr ddarparu cymaint o fanylion ag sydd modd ynglyn ag effeithiau ffrwydro, gan ei fod o gymorth i'r ACLL wrth bennu cais.

Dylid ffrwydro fel arfer yn ystod y diwrnod gwaith arferol, a dylai ymgeiswyr roi manylion am y trefniadau a wnaed i rybuddio'r cyhoedd ac i gyfyngu ar fynediad yn ystod y ffrwydro ei hun.

Dylai ymgeiswyr hefyd roi manylion am y dulliau a ddefnyddir ar gyfer rhagolygon o'r fath. (e.e., ffrwydradau prawf ar safleoedd cyffelyb, etc.).

A1.24 Dylai ymgeiswyr nad ydynt yn sicr a yw'r defnydd yn y cynnig yn golygu defnyddio a storio defnyddiau peryglus gysylltu â'r ACLL neu'r Asiantaeth yr Amgylchedd.

Yn achos defnyddiau a all greu perygl, dylai ymgeiswyr nodi beth yw'r defnydd peryglus ydyw, pa ystyriaeth arbennig sydd ei angen neu a roddwyd i leoli'r datblygiad sydd yn golygu'i ddefnyddio, a sut y bwriedir storio'r defnydd. Gellir cael canllawiau pellach o Gylchlythyr AyrA 11/92 ar Ddeddf Cynllunio (Sylweddau Peryglus) 1990, a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 1992. Gellir cael mwy o gyngor gan y Gweithgor Iechyd a Diogelwch.

A1.25 Lle bo hynny'n berthnasol, dylai ymgeiswyr roi amlinelliad o'r mesurau arfaethedig i reoli llygredd posibl, i warchod dwr yn y tir ac ar yr wyneb. Dylent roi syniad o unrhyw ddraenio angenrheidiol a chamau rheoli llifogydd; a mesurau monitro arfaethedig, gan gynnwys unrhyw ofynion i ddarparu lagwnau setlo; y ffordd o waredu dwr wyneb; osgoi amharu ar y draeniad o ardaloedd cyfagos; a sut i atal defnydd rhag mynd i mewn i gyrsiau dwr agored.

Os cafwyd unrhyw drafodaethau gyda'r AA cyn cyflwyno'r cais hwn, yna hwyrach y dymuna'r ymgeisydd roi gwybod i'r ACLL beth ddeilliodd ohonynt.

A1.26 I'w lenwi fel sy'n berthnasol. Rheolaeth Llygredd Cyfannol ( Rh Ll C) yn cael ei orfodi gan Lywodraeth Ganol. Rheolaeth Llygredd Aer (Rh Ll A) yn berthnasol i brosesau sydd â gallu cudd i fod yn llai niweidiol ac yn cael eu gorfodi gan yr Awdurdodau Lleol.

A1.27 A fyddwch cystal â nodi nad yw caniatâd cynllunio yn rhoi'r hawl i ddileu na gwyro hawl tramwy cyhoeddus, e.e., llwybr cyhoeddus, llwybr ceffyl na ffordd. Os bydd eich cynllun yn effeithio ar hawl tramwy cyhoeddus fel hyn, bydd arnoch angen hawl penodol. Mae mwy o gyngor ar y mater hwn i'w gael gan yr ACLL neu'r awdurdod priffyrdd.

A1.28 Dylai ymgeiswyr gyflwyno digon o wybodaeth i ddangos maint effaith gweledol y datblygiad a'r gwaith arfaethedig. Er enghraifft, gall y dulliau a ddefnyddir gynnwys mapiau amlen gweledol neu ffotomontage. Dylai ymgeiswyr hefyd gyflwyno gwybodaeth i nodi maint, natur a lleoliad unrhyw dirweddu a wneir yn ystod y gwaith i sgrinio'r safle o olwg y cyhoedd, neu liniaru'r effaith weledol mewn unrhyw ffordd arall. Dylai ymgeiswyr wahaniaethu rhwng nodweddion parhaol a thros dro. Dylid croes-gyfeirio at unrhyw gynlluniau a gyflwynir dan Gwestiwn A5 y brif ffurflen.

A1.29 Dylai ymgeiswyr drafod tebygolrwydd ansefydlogrwydd ffâs gwaith, tomenydd a strwythurau cysylltiol â'r ACLL. Dylid cyflwyno adroddiad sefydlogrwydd a ddylai gynwys dadansoddiad geodechnegol, a dylai gynnig mesurau a gymerir i leihau'r perygl o ansefydlogrwydd.

## Claddu Gwastraff ar Safleoedd Cloddio Mwynau

A1.30-33 Lle bo claddu gwastraff gan ddefnyddio gwastraff rheoledig i ddigwydd, rhaid i'r gweithwyr, yn ychwanegol at gael caniatâd cynllunio, gael trwydded rheoli gwastraff yn unol â Deddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990. Mae'r ffurflenni cais a chyngor i'w cael gan yr awdurdodau rheoli gwastraff.

Sylweddolir y bydd llawer o fanylion gwaith unrhyw gynnig am gladdu gwastraff sy'n golygu gwastraff rheoledig yn cael eu cyflwyno fel rhan o gais am Drwydded Gwaredu Gwastraff. Fodd bynnag, at ddibenion cynllunio, mae'n hanfodol dangos bod sail gadarn i'r cynigion i adfer trwy gyfrwng gwastraff rheoledig. Ystyr hyn yw bod y defnyddiau ar gael o fewn amserlen y broses adfer; bod modd eu mewnforio a'u gosod mewn dull amgylcheddol dderbyniol, a bydd y rheoli ar y safle wedi hynny yn galluogi i'r ôl-ddefnydd gael ei weithredu yn llwyddiannus. Hwyrach y dymuna ymgeiswyr gyfeirio at Nodyn Technegol Cynllunio (Cymru) 9, "Cynllunio, Rheoli Llygredd a Rheoli Gwastraff".

## Adfer, Ôl-ofal ac Ôl-ddefnydd

A1.34 Cynghorir ymgeiswyr yn gryf i ddarllen CPM7 "Adfer Gwaith Mwynau", sy'n gosod allan y wybodaeth sydd ei angen fel arfer i gefnogi cais cynllunio. Fel rheol, gosodir amodau ôl-ofal ar bob caniatâd i gloddio mwynau lle bo'r ôl-ofal arfaethedig at ddibenion amaethyddol, coedwigaeth neu amwynder, a byddant naill ai yn nodi manylion am y camau i'w cymryd, neu, lle na fyddir yn cychwyn ar adfer ac ôl-ofal am rai blynyddoedd, yn gofyn am gyflwyno cynllun ôl-ofal i'w gymeradwyo yn nes ymlaen. Gofynnir i ymgeiswyr roi manylion ôl-ofal i helpu gydag ymgynghori statudol gyda'r Weinyddiaeth Amaeth neu'r Comisiwn Coedwigaeth (ar gyfer ôl-ofal amaethyddol neu goedwigaeth) a ffurfio amodau ôl-ofal.

Yn gyffredinol, rhaid i'r ymgeisydd ddangos i'r ACLL fod modd adfer y safle'n foddhaol. Y ffordd orau o wneud hyn yw paratoi cynllun adfer cefnogol ar wahân yn y cychwyn, yn seiliedig ar ymchwiliad manwl o'r safle ac sydd wedi asio'n llawn â'r rhaglen waith. Ar gyfer ôl-ddefnydd sy'n golygu rhyw fath o dyfiant planhigion (e.e., amaethyddiaeth, coedwigaeth neu amwynder), dylai'r cynllun fel arfer gynnwys pedwar prif gam:

a) stripio pridd a defnyddiau gwneud pridd, a naill ai eu storio neu roi peth yn uniongyrchol yn eu lle (h.y., adfer) ar ran arall o'r safle;
b) creu ffurf derfynol y tir, gan gynnwys gwaith llenwi (os oes ei angen);
c) adfer;
d) ôl-ofal.

**Dylai pob ymgeisydd gyflwyno manylion ynglyn â phwyntiau (a) ac (c) uchod. Dylai pob ymgeisydd hefyd nodi pa ôl-ddefnydd a fwriedir ar gyfer y safle, gan amlinellu cynigion ar gyfer ôl-ofal (d). Dylid cyflwyno manylion y cynigion llenwi (b) lle bo hynny'n berthnasol.**

**Lle bo hynny'n bosibl, dylid paratoi cynllun cynyddol o weithio sy'n cymryd cyn lleied ag sydd modd o dir allan o ddefnydd amaethyddol neu arall ar unrhyw un adeg, ac sy'n hwyluso adfer y safle yn gynyddol. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i leoliad a dyluniad y pridd a'r twmpathau storio gorlwyth, a dylid nodi amseriad eu codi a'u symud.**

**Os bwriedir gwneud ôl-ddefnydd amwynder, yna dylai'r ymgeisydd nodi a fwriedir rhan(nau) neu'r cyfan o'r safle ar gyfer cadwraeth natur, adloniant anffurfiol, neu chwaraeon. Os creir ardaloedd dwr, yna dylai'r ymgeisydd geisio amcangyfrif dyfnder y dwr, a lle mae i fod; heidroleg ac ansawdd y dwr. Dylid cyflwyno proffiliau arfaethedig y glannau; creu ynysoedd; cadw a defnyddio'r pridd a thrin a phlannu ymylon dwr a thir; dylid hefyd cyflwyno cynlluniau i reoli hyn oll yn y dyfodol, os ydynt yn rhan o'r cynllun adfer cyffredinol.**

A1.35-36 I'w llenwi gan bob ymgeisydd fel sy'n berthnasol.

A1.37 Lle bo'r safle neu ran o'r safle yn debyg o gael ei adfer ymhen 12 mis o gychwyn y gwaith, dylai ymgeiswyr roi manylion llawn am y cynllun adfer arfaethedig, a'r ôl-ofal. Oni fwriedir hyn, dylai ymgeiswyr gyflwyno crynodeb o'r eitemau y bwriedir eu cynnwys mewn cynllun ôl-ofal, i gytuno arni yn nes ymlaen, gan gynnwys rheoli'r tir yn ystod cyfnod yr ôl-ofal a'r trefniadau a fwriedir yn y tymor hwy.

**Dylai ymgeiswyr roi manylion trefniadau i reoli'r safle a adferwyd yn y tymor hwy. Dylai hyn gynnwys unrhyw un arall a fydd neu a all fod yn gyfrifol am y safle yn ystod cyfnod yr ôl-ofal (e.e., os yn gyn-denant, ffermwr neu berchennog tir); ac yn enwedig safleoedd i'w defnyddio ar gyfer cadwraeth natur neu adlonaint; pa drefniadau sy'n debygol ar gyfer rheoli'r tir yn y tymor hwy. Dylai ymgeiswyr hefyd nodi os yw'r materion hyn yn destun oblygiad cynllunio arfaethedig/cytundeb gwirfoddol.**

## Manteision y Datblygiad

A1.38 Bwriad y cwestiwn hwn yw rhoi cyfle i ymgeiswyr ddangos manteision y datblygiad arfaethedig. Mae gwaith mwynau o raid yn cael rhyw effaith ar yr amgylchedd, ac felly y mae'n rhaid yn aml ystyried ffactorau gwaith ac economaidd wrth asesu cynigion pan fyddwn yn ystyried eich cais.

Hwyrach yr hoffai ymgeiswyr hefyd ddangos yr angen am y datblygiad arfaethedig yn nhermau canllawiau cenedlaethol neu berthynas y cynigion i bolisiau perthnasol cynlluniau datblygu. Gweler Cylchlythyr AyrA 2/85 ar gyfer Olew a Nwy, a CCM6 ar gyfer cerrig mâl.

# ATODIAD 2: CHWILIO AM FWYNAU

| AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG | |
|---|---|
| **Cais rhif:** | |
| **Dyddiad:** | |

## Cais i Wneud Gwaith Mwynau a Datblygu Cysylltiedig

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

*DYLID LLENWI'R ATODIAD HWN (YN YCHWANEGOL AT Y PRIF GAIS CYNLLUNIO MWYNAU AC UNRHYW ATODIADAU PERTHNASOL) AR GYFER CYNIGION AM CHWILIO AM FWYNAU (AC EITHRIO OLEW NEU NWY) AC SYDD ANGEN CANIATÂD CYNLLUNIO.* ***A FYDDWCH CYSTAL Â DARLLEN Y NODIADAU CYFARWYDDYD SYDD AR DDIWEDD YR ATODIAD HWN CYN ATEB Y CWESTIYNAU.***

A2.1 Mwyn(au) a geisir

A2.2 Arwynebedd safle'r archwilio ______________________ ha

A2.3 (i) Hyd y gwaith __________________ Mis _________________ Dydd

(ii) Oriau gwaith

| | Amser o'r dydd | Dyddiau'r wythnos |
|---|---|---|
| Cyfnodau gweithio | | |

A2.4 (i) A yw'r dulliau archwilio yn golygu:

(a) tyllau archwilio neu fathau eraill o dyllu? YDYW/NAC YDYW Os ydyw, llenwch (ii) isod.

(b) Dulliau seismig? YDYW/NAC YDYW Os ydyw, llenwch (iii) a (iv) isod.

(ii) Os yw'r archwilio yn golygu tyllau archwilio neu ddulliau eraill o gloddio, nodwch:

nifer _________________ dyfnder ________________

(iii) Os yw'r archwilio yn golygu dulliau seismig, nodwch lwybr yr arolwg.

(iv) Os defnyddir ffrwydron, nodwch:

ddyfnder y ffrwydryn _______________ uchafswm ffrwydriad syth _______________

dirgryniad tir a ddisgwylir yn yr eiddo agosaf yr effeithir arnynt _________________ uchafswm arfaethedig a nifer cyfartalog y ffrwydradau bob dydd ________________

(v) Crynhowch y camau a gymerir i wneud y safle'n ddiogel wedi gorffen y gwaith.

A2.5 Nodwch y cynigion adfer.

**NODIADAU CYFARWYDDYD AR GYFER CHWILIO AM FWYNAU**

MAE MODD DARGANFOD MANYLION YR HYN A EITHRIR O GANIATÂD CYNLLUNIO YN RHAN 22 ATODLEN 2 GORCHYMYN TREFNIADAETH DATBLYGU CYFFREDINOL 1995.

A2.1 Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y math o fwyn yn hysbys, a dylid ei nodi. Lle nad yw'r mwynau a geisir yn hysbys, dylai ymgeiswyr nodi diben y gwaith a wneir.

A2.2 Dylai hyn roi syniad o arwynebedd y safle (ha) i'w harchwilio.

**Dylai ymgeiswyr ofalu bod hyn wedi'i amlinellu mewn coch ar gynllun ac wedi'i nodi yng Nghwestiwn 5 y prif ffurflen gais am fwynau.**

A2.3 Dylai ymgeiswyr nodi hyd y gweithio mewn misoedd a/neu ddyddiau, ac amseroedd y dydd pan fydd y gwaith chwilio'n digwydd.

A2.4 (i) I'w lenwi gan bob ymgeisydd sy'n chwilio am fwynau.

(ii) I'w lenwi gan ymgeiswyr y bydd eu gwaith yn golygu defnyddio tyllau chwilio neu ddulliau eraill gloddio.

(iii)-(iv) I'w lenwi gan ymgeiswyr y bydd eu gwaith yn golygu defnyddio dulliau seismig.

(v) Dylai ymgeiswyr nodi'r camau y bwriadant gymryd i ddiogelu'r safle ar derfyn yr archwilio gan ddefnyddio tyllau chwilio neu ddulliau seismig (os yn briodol).

A2.5 Dylai ymgeiswyr nodi unrhyw gynigion adfer y bwriadant fabwysiadu wedi i'r chwilio ddod i ben.

# ATODIAD 3: CLODDIO TANDDAEAR

| AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG | |
|---|---|
| **Cais rhif:** | |
| **Dyddiad:** | |

## Cais i Wneud Gwaith Mwynau a Datblygu Cysylltiedig

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

*DYLID LLENWI'R ATODIAD HWN (YN YCHWANEGOL AT Y PRIF GAIS CYNLLUNIO MWYNAU AC UNRHYW ATODIADAU PERTHNASOL) AR GYFER CYNIGION AM CHWILIO AM FWYNAU (AC EITHRIO OLEW NEU NWY) AC SYDD ANGEN CANIATÂD CYNLLUNIO.* ***A FYDDWCH CYSTAL Â DARLLEN Y NODIADAU CYFARWYDDYD SYDD AR DDIWEDD YR ATODIAD HWN CYN ATEB Y CWESTIYNAU.***

A3.1 Dyfnder(au) cloddio

Isafswm. ____________________ Uchafswm ____________________

A3.2 Nifer(oedd) a/neu enwau haenau neu wythiennau i'w cloddio

A3.3 (i) Dulliau cloddio i'w defnyddio (e.e., wal hir, wal fer, piler a ffâs, toddiant neu stôb)

(ii) Crynhowch pa ymchwiliadau a wnaed i ymsuddo a ragwelir a'r mannau sy'n debyg o fod yn destun y cais hwn.

(iii) Crynhowch unrhyw gamau i atal neu i leihau ymsuddo.

A3.4 (i) Math o wastraff i'w ddwyn i'r wyneb

____________________________________________________________

____________________________________________________________

(ii) Cyfanswm cyfaint gwastraff i'w ddwyn i'r wyneb a'r cyfran ohono sy'n ddifywyd.

Cyfanswm cyfaint gwastraff ____________ $m^3$ Cyfran difywyd ____________ %

(iii) Crynhowch y dulliau arfaethedig i ddwyn y gwastraff i'r wyneb.

(iv) Crynhowch y dull a'r lle arfaethedig i waredu gwastraff

A3.5 Crynhowch y dull arfaethedig o drin agoriadau pyllau pan fydd y gwaith wedi dod i ben.

## NODIADAU CYFARWYDDYD AR GYFER CLODDIO TANDDAEAR

*GELLIR RHOI LLAWER O'R WYBODAETH SYDD EI ANGEN AR GYFER Y MATH HWN O GAIS DAN Y BRIF FFURFLEN GAIS MWYNAU AC ATODIAD 1. MAE'R ADRAN HON FELLY YN YMDRIN Â MATERION NAS YMDRINIR Â HWY YN YR ADRANNAU HYNNY, GAN GYNNWYS DULLIAU O WEITHIO A DATBLYGIADAU CYSYLLTIEDIG SY'N BENODOL I GLODDIO TANDDAEAR,. e.e., SIAFFTIAU AWYRU, SYDD AR SAFLEOEDD NAD YDYNT YN GYSYLLTIEDIG Â PHEN Y PRIF BWLL NEU'R PRIF WAITH PROSESU.*

A3.1 Dylid cyflwyno darluniau hefyd yn dangos dyfnder a lleoliad.

A3.2 Dylid cyflwyno darluniau hefyd i gefnogi'r cwestiwn hwn ac y rhoddir manylion amdano yng Nghwestiwn 5 y prif ffurflen gais am fwynau.

A3.3 Dylai ymgeiswyr roi manylion am unrhyw ymchwiliadau i ymsuddo a ragwelir, gan gynnwys maint dros amser a'r mannau tebygol yr effeithir arnynt.

Dylai ymgeiswyr hefyd roi manylion am fesurau lliniaru i atal neu leihau ymsuddo rhag digwydd. Dylid rhoi disgrifiad o'r dulliau a ddefnyddir, a syniad o pryd y bydd y camau lliniaru yn digwydd. Efallai y dymuna ymgeiswyr gyfeirio at Nodyn Technegol Cynllunio (Cymru) 19 - Datblygu ar Dir Ansefydlog.

A3.4 Dylai ymgeiswyr ofalu bod lleoliad gwaredu gwastraff yn glir. Mewn llawer achos, bydd angen hefyd llenwi Atodiad 4 y ffurflen gais am fwynau. Argymhellir eich bod yn trafod y mater hwn gyda'r awdurdod cynllunio lleol cyn cyflwyno eich cais.

A3.5 Dylai ymgeiswyr geisio rhoi gwybodaeth am drin agoriadau pyllau neu am roi'r gorau i'r gwaith. Gall gwaith trin olygu gorchuddio, capio, cau a llenwi, neu roi clwydi neu gril dros agoriadau, ynghyd â chodi ffensys neu waliau terfyn o gwmpas agoriadau i byllau, neu o gwmpas tir sydd mewn perygl o ymsuddo oherwydd gwaith tanddaear. Ceir mwy o wybodaeth yn y CCM 12 - Trin Hen Agoriadau Pyllau a Gwybodaeth am Dir Lle mae Pyllau.

# ATODIAD 4: GWAITH GWAREDU MAWR GWASTRAFF CHWARELI AR YR WYNEB.

| AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG | |
|---|---|
| **Cais rhif:** | |
| **Dyddiad:** | |

## Cais i Wneud Gwaith Mwynau a Datblygu Cysylltiedig

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

*DYLID LLENWI'R ATODIAD HWN (YN YCHWANEGOL AT Y PRIF FFURFLEN GAIS GYNLLUNIO AM FWYNAU AC UNRHYW ATODIADAU PERTHNASOL ERAILL) AR GYFER CYNIGION SY'N GOLYGU GWNEUD GWAITH MAWR I WAREDU GWASTRAFF CHWAREL A PHYLLAU AR YR WYNEB (AC EITHRIO AM OLEW A NWY) AC A FYDD ANGEN CANIATÂD CYNLLUNIO.* ***A FYDDWCH CYSTAL Â DARLLEN Y NODIADAU CYFARWYDDYD AR DERFYN YR ATODIAD HWN CYN ATEB Y CWESTIYNAU.***

A4.1 (i) Nodwch gyfanswm arwynebedd y safle lle bwriedir rhoi gwastraff chwareli a phyllau ______ ha

A4.2 (ii) Beth yw'r dull(iau) arfaethedig o godi tomenydd gwastraff solet?

(iii) Beth yw cyfanswm nifer y tomenydd arfaethedig ac amcangyfrif o gyfanswm faint o ddefnydd a waredir?

Nifer tomenydd. ______ Defnydd i'w waredu ______ m³

(iv) A yw'r cynnig yn cynnwys lagwnau sorod? YDYW/NAC YDYW

Os ydyw, faint?

A4.3 (i) Crynhowch nodweddion ffisegol gwastraff y cloddio.

(ii) Crynhowch nodweddion cemegol gwastraff y cloddio (os yn berthnasol)

A4.4 Ar gyfer tomen(ydd) dros dro, nodwch ddyddiad(au) ei/u symud, fesul tomen unigol.

**NODWCH: DYLID CYNNWYS ADFER, ÔL-OFAL AC ÔL-DDEFNYDD TOMENYDD GWASTRAFF YN EICH ATEBION I A1.34 - A1.37.**

## NODIADAU CYFARWYDDYD AR GYFER GWAITH MAWR AR YR WYNEB I WAREDU GWASTRAFF CHWARELI NEU BYLLAU

*GELLIR RHOI LLAWER O'R WYBODAETH SYDD EI ANGEN AR GYFER Y MATH HWN O GAIS DAN Y BRIF FFURFLEN GAIS AM FWYNAU AC ATODIAD 1.*

*FODD BYNNAG, GALL RHAI MATHAU O DDATBLYGIAD MWYNAU GREU CRYN WASTRAFF, AC FELLY, BYDD ANGEN GWYBODAETH YCHWANEGOL AR GYFER Y DATBLYGIADAU HYN. YN EU PLITH, MAE:*

- CYNIGION CARREG GALED SYDD Â CHRYN LAWER O WASTRAFF
  (peth calchfaen, craig igneaidd a chwareli tywodfaen)
- LLECHI;
- MWYNAU GWYTHIEN
  (gan gynnwys tun, copr, plwm, haematit, mwyn hearn, grisial trwm, calsit a fflworsbar).

*HWYRACH Y BYDD AR YR ACLL YN MYNNU BOD CYNLLUN RHEOLI LLAWN AR WAHÂN YN CAEL EI GYFLWYNO, GAN WNEUD DARPARIAETH LAWN AR GYFER Y DULL O OSOD Y GWASTRAFF, Y STRIPIO CYCHWYNNOL A STORIO'R UWCHBRIDD, AC ÔL-OFAL AC ÔL-DDEFNYDD Y SAFLE. CYNGHORIR YMGEISWYR I DRAFOD Y GOFYNIAD HWN GYDA'R ACLL. NI FWRIEDIR I GWBLHAU'R CWESTIYNAU HYN YNDDO'I HUN FOD YN GYNLLUN RHEOLI GWASTRAFF Y GELLIR EI FYNNU GAN YR ACM DAN RAN 21 O OTDC 1995.*

*YM MHOB ACHOS, FODD BYNNAG, BYDD YN RHAID I'R ACLL FOD YN SIWR BOD Y CYNIGION AR SAIL GADARN AC Y GELLIR ADFER Y TIR YMHEN AMSER RHESYMOL O DERFYNU'R GWAITH.*

A4.1 Dylid rhoi cyfanswm arwynebedd safle arfaethedig gosod y gwastraff o byllau a chwareli. Dylai ymgeiswyr hefyd ofalu y dangosir lleoliad safleoedd gwastraff dros dro a pharhaol yn glir ar gynllun y rhoddir manylion amdano yng Nghwestiwn 5 y prif ffurflen gais am fwynau. Dylai'r cynllun fod yn ddigonol i fedru gwahaniaethu rhwng safleoedd gwastraff dros dro a pharhaol.

A4.2 (i) I'w lenwi gan bob ymgeisydd. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am raddiannau a chyfuchliniau tomenydd, gan gynnwys uchafswm uchder. Y ffordd orau o ddarlunio'r wybodaeth hon yw trwy gynlluniau, rhanluniau a darluniau ategol.

(ii) I'w lenwi gan bob ymgeisydd.

(iii) I'w lenwi os yn berthnasol.

A4.3 Dylid dehongli nodweddion ffisegol a chemegol gwastraff yn nhermau eu heffaith ar y llystyfiant dilynol, yn ogystal â darpariaeth ar gyfer trin gwastraff gan gynnwys rheoli a gwaredu draeniad ac unrhyw orlif a all ddigwydd.

A4.4 Dylid nodi dyddiadau, naill ai ar y cynllun, yn dangos tomenydd dros dro, neu mewn man arall, yn dangos pryd yn y rhaglen waith y symudir y tomenydd dros dro.

## ATODIAD 5:GWAITH OLEW A NWY

| AT DDEFNYDD SWYDDOGOL YN UNIG | |
|---|---|
| **Cais rhif:** | |
| **Dyddiad:** | |

# Cais i Wneud Gwaith Mwynau a Datblygu Cysylltiedig

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

*DYLID LLENWI'R FFURLFEN HON AR GYFER CYNIGION SY'N YMWNEUD Â GWAITH OLEW NEU NWY AC SYDD ANGEN CANIATÂD CYNLLUNIO.* ***A FYDDWCH CYSTAL Â DARLLEN Y NODIADAU CYFARWYDDYD AR DDIWEDD YR ATODIAD HWN CYN ATEB Y CWESTIYNAU HYN.***

Ar gyfer **Chwilio,** atebwch Gwestiynau A5.1, A5.4 ac A5.5.
Ar gyfer **Gwerthuso**, atebwch Gwestiynau A5.2, A5.4 ac A5.5.
Ar gyfer **Cynhyrchu,** atebwch Gwestiynau A5.3, A5.4 ac A5.5.

### Chwilio

A5.1 (i) Nodwch

(a) gyfanswm arwynebedd y chwilio ____________________ ha

(b) lwybr(au) unrhyw arolwg/arolygon seismig a wneir yn ystod y chwilio.

(ii) A fydd eich dull seismig yn defnyddio dulliau dirgrynu? BYDD/NA FYDD

(iii) A yw'r dull seismig yn defnyddio unrhyw ffrwydriad? YDYW/NAC YDYW

Os ydyw:

(a) beth yw dyfnder y ffrwydrad a'r uchafswm ffrwydrad syth?

Dyfnder _______________ uchafswm ffrwydrad syth _________________

(b) beth yw cyfartaledd ac uchafswm nifer y ffrwydradau a ddefnyddir bob dydd?

Cyfartaledd bob dydd _______________ uchafswm bob dydd _________________

(c) beth fydd amcangyfrif dirgryniad lefel y ddaear yn yr eiddo agosaf yr effeithir arno?

(iv) A fydd y dull chwilio yn golygu tyllu ffynhonnau? BYDD/NA FYDD

Os bydd:

(a) pa feini prawf a ddefnyddir i ddewis safle(oedd) y ffynhonnau?

(b) faint o ffynhonnau y disgwyliwch eu tyllu? ____________________

(c) beth yw dyfnder y ffynhonnau ar gyfartaledd? ____________________ m

(ch) beth yw'r dull arfaethedig o waredu gwastraff tyllu?

(v) Pa offer a ddefnyddir ar gyfer chwilio?

(vi) Am faint y rhagwelir y bydd y gwaith yn para?

Dyddiad cychwyn ____________________ Dyddiad cwblhau ____________________

## Gwerthuso

A5.2 (i) Nodwch

(a) arwynebedd safle'r gwerthuso ____________________ ha

(b) meini prawf i'w defnyddio i ddewis safleoedd ffynhonnau

(c) cyfarpar i'w ddefnyddio i wneud y gwerthuso

(ch) dulliau i'w defnyddio i wneud y gwerthuso

(ii) Os defnyddir safle ffynnon/ffynhonnau chwilio

(a) faint o ffynhonnau gaiff eu tyllu? ____________________

(b) beth fydd dyfnder y ffynhonnau ar gyfartaledd? ____________________ m

## Cynhyrchu

A5.3 (i) Nodwch

(a) uchafswm cyfaint olew/nwy yr amcangyfrifir fydd yn cael ei godi

barilau/troedfeddi ciwbig safonol (dileer yn ôl y galw) y dydd ____________ cyfanswm y flwyddyn ____________

(b) cyfanswm a ddisgwylir o'r maes ______________________ cyfanswm

(c) oes y maes ______________________ blynedd

(ch) cyfarpar ac offer a ddefnyddir

(d) amcangyfrif o gynhwysedd y gwaith

(dd) lleoliad unrhyw waith prosesu oddi ar y safle

(ii) Nodwch y dull(iau) arfaethedig o gludo olew a/neu nwy o'r ffynnon/ffynhonnau) i'r cyfleusterau casglu, prosesu a storio (e.e., pibelli, rheilffordd, ffyrdd neu longau).

## Effeithiau Amgylcheddol Penodol y Cynigion

A5.4 (i) Nodwch gynlluniau wrth gefn petae olew yn gollwng a chamau i warchod dwr wyneb a dwr daear.

(ii) Nodwch y camau a gymerir i leihau llygru'r amgylchedd a chreu swn.

(iii) Nodwch y dulliau arfaethedig i'w defnyddio i waredu gwastraff tyllu a gwastraff arall sy'n codi o'r gwaith.

A5.5 Crynhowch y cynigion adfer penodol.

**NODIADAU CYFARWYDDYD AR GYFER GWAITH OLEW A NWY**

*CYDNABYDDIR BOD DATBLYGIADAU OLEW A NWY HEFYD YN CAEL EU RHEOLI GAN GYFUNDREFN O DRWYDDEDAU PENODOL A DDYFERNIR I GWMNIAU OLEW TRWY'R YSGRIFENNYDD GWLADOL, AC SY'N DESTUN NIFER O FESURAU DIOGELWCH, YN ENWEDIG YN YMWNEUD Â LLYGREDD A MANYLION GWAITH TYLLU. FODD BYNNAG, YN NHERMAU CYNLLUNIO, MAE'R MATHAU HYN O DDATBLYGU YN DWYN I MEWN FATERION SENSITIF A CHYMHLETH O BRYDER LLEOL, Y MAE'N RHAID I'R ACLL EU HYSTYRIED.*

*BYDD O GYMORTH YN AML, YN ENWEDIG I DDATBLYGIADAU OLEW A NWY, I FATERION GAEL EU DWYN YNGHYD MEWN DATGANIAD AMGYLCHEDDOL: O DDEWIS, DYLID CYFLWYNO HWN AR YR UN PRYD Â'R CAIS HWN.*

*DYLAI YMGEISWYR HEFYD GYFEIRIO AT GYLCHLYTHYR 2/85 AyrA, RHEOLAETH GYNLLUNIO DROS WAITH OLEW A NWY, SYDD YN RHOI'R CANLLAWIAU CENEDLAETHOL CYFREDOL.*

*DYLID DARPARU GWYBODAETH AR WAHÂN AR GYFER ELFENNAU CHWILIO, GWERTHUSO A CHYNHYRCHU Y MATHAU HYN O DDATBLYGIAD, YN OGYSTAL AG EFFEITHIAU PENODO Y CYNIGION. RHODDIR CYFARWYDDYD YNGLYN AG AMRED A MATH Y WYBODAETH ISOD.*

*OS NAD YDYCH YN SIWR YNGLYN AG UNRHYW AGWEDD O'R WYBODAETH HON, ARGYMHELLIR YN GRYF EICH BOD YN CYSYLLTU Â'R ACLL AM GYNGOR PELLACH.*

## Chwilio

A5.1 Dylid cael cyfeiriad yn yr holl wybodaeth at gynlluniau ategol.

**Os defnyddir arolygon seismig, yna derbynnir bod ymchwiliadau seismig fel arfer yn cael effeithiau amgylcheddol cyfyngedig, ac mewn llawer achos, gellir edrych ar y math hwn o ddatblygiad - yn enwedig un sy'n defnyddio technegau vibrosis - fel "de minimus" (h.y., nad oes angen caniatâd cynllunio). Mae arfer da yn mynnu bod ymgeiswyr hefyd yn hysbysu'r ACLL yn ogystal â'r awdurdodau priffyrdd am y cynigion. (Hwyrach y bydd yn rhaid i gwmniau hefyd roi gwybod i gyrff statudol eraill megis y cwmniau dwr a'r heddlu dan yr amgylchiadau perthnasol). Mae'r gofynion gwybodaeth ar gyfer y dull seismig arfaethedig; a dirgryniadau tir yn yr eiddo agosaf yr effeithir arno (os yn berthnasol).**

## Gwerthuso

A5.2 Dylid cael cyfeiriad yn yr holl wybodaeth at gynlluniau ategol, a rhaid rhoi manylion amdanynt yng Nghwestiwn 5 y brif ffurflen gais gynllunio am fwynau.
Dylai ymgeiswyr hefyd roi crynodeb o'r wybodaeth berthnasol a geir o'r cyfnod chwilio.

## Cynhyrchu

A5.3 Dylid cael cyfeiriad yn yr holl wybodaeth at gynlluniau ategol, a rhaid rhoi manylion amdanynt yng Nghwestiwn 5 y prif ffurflen gais gynllunio am fwynau.

## Effeithiau Amgylcheddol Penodol y Cynigion

A5.4 Dylai ymgeiswyr roi crynodeb o waith arall ar y safle sy'n gysylltiedig â'r datblygiad arfaethedig neu a fwriadwyd i warchod yr amgylchedd. Y ffordd orau o ymdrin â'r wybodaeth hon yw trwy ddatganiad amgylcheddol. Dylai ymgeiswyr ofyn i'r ACLL a yw'r gofyniad hwn yn angenrheidiol.

A5.5 Fel rheol, dylid adfer safleoedd wedi tyllu aflwyddiannus i chwilio yn syth neu cyn gynted ag sydd modd wedi i'r tyllu orffen.

Yn achos safleoedd gwerthuso a chynhyrchu, dylid cyflwyno cynllun adfer ac ôl-ofal cynhwysfawr gyda'r cais hwn.

Ar gyfer safleoedd sydd yn cynnwys pob cyfleuster maes (gan gynnwys pibelli, terfynellau dosbarthu, gorsafoedd casglu, etc.) dylai ymgeiswyr ddarparu cynlluniau ar gyfer rhoi'r gorau i'r safle a'i hadfer ar derfyn y cyfnod a ganiateir. Dylai ymgeiswyr nodi y gall yr ACLL hefyd ofyn am fesurau diogelwch pellach trwy oblygiadau cynllunio er mwyn sicrhau bod y symud hwn yn digwydd.